20 Mehefin 2024

A4119 Cynllun Deuoli Coedelái – cau ffyrdd dros dro

Annwyl Breswylydd / Perchennog Busnes,

Fel rhan o'r cynllun hwn, rwy'n ysgrifennu atoch i ddweud ein bod ni bellach yn barod i osod y Bont Droed Teithio Llesol. Er mwyn cludo'r elfen bwysig hon o'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon, **bydd yr A4119 ar gau dros nos i bob traffig** rhwng cylchfan Coedelái a chylchfan Gwasanaeth Tân ac Achub y De **rhwng 21:00 a 06:00 nos Iau 27/bore Gwener 28 Mehefin a nos Wener 28/bore Sadwrn 29 Mehefin.**

Byddwn yn codi ac yn gosod y bont droed ar y noson gyntaf, ac yn codi a gosod y rampiau dynesu ar yr ail noson. Hefyd, byddwn yn manteisio ar y cyfle i osod polion goleuadau stryd ar gylchfan Coedelái a gwneud gwaith ategol i argloddiau.

Yn ystod y cyfnodau cau dros dro hyn, bydd llwybr gwyro ar waith fydd wedi'i arwyddo'n glir – gallwch weld copi ar dudalen we ein prosiect o dan yr adran newyddion yma: https://community.griffiths.co.uk/wp-content/uploads/2022/12/Map-Dargyfeirio-Coed-Elai.pdf

Bydd modd cael mynediad i eiddo a busnesau o fewn y cyfnod cau. Bydd gweithwyr rheoli traffig ar waith ar y naill ben a'r llall o'r ffordd sydd ar gau i arwain unrhyw draffig. Bydd mynediad i'r gwasanaethau brys yn parhau hefyd.

Bydd trefniadau gwasanaeth bws dros dro ar waith ar gyfer llwybrau lleol yn ystod y cyfnod hwn. Bydd gwasanaeth 122 (Caerdydd-Tonypandy) yn dilyn llwybr gwyro drwy Bontypridd a'r Porth.

Bydd bws gwennol dros dro rhwng Tonypandy a Choedelái ar y ddwy noson. Bydd hwn yn wasanaeth AM DDIM gan gwmni Stagecoach, ac yn dilyn y llwybr bws arferol o Goedelái i Donyrefail, Trewiliam a gorsaf fysiau Tonypandy (i'r ddau gyfeiriad). Dyma'r amserlen:

Bws gwennol 122 Coedelái– Tonypandy 27-28 Mehefin

Gorsaf fysiau Tonypandy A6	Gadael	20:51	21:51	23:51
Trebanog Fferm Cilely		21:03	22:03	24:03
Clwb y Ceidwadwyr Coedelái		21:15	22:15	24:15
Swyddfa bost		21:17	22:17	24:17
Swyddfa bost		21:17	22:17	24:17
Clwb y Ceidwadwyr Coedelái		21:15	22:15	24:15
Trebanog Fferm Cilely		21:03	22:03	24:03
Gorsaf fysiau Tonypandy A6	Gadael	20:51	21:51	23:51

Mae dyddiadau ac amseroedd cau'r ffyrdd a'r trefniadau gwasanaeth bws dros dro yn amodol ar y tywydd

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am ein gwaith, neu os hoffech gopi o'r llwybr gwyro swyddogol, cysylltwch â Rich Foxhall, Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd y cynllun, rhwng 08.30 a 17.30 (dydd Llun i ddydd Gwener) trwy ffonio ***03300 412 185**. Os ydych chi'n ffonio y tu allan i'r oriau hyn, neu os nad yw Rich yn gallu ateb, gadewch neges. Neu, gallwch e-bostio Rich ar A4119CoedEly@alungriffiths.co.uk

Hoffem fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi am eich amynedd a'ch cydweithrediad yn ystod y gwaith hwn ac rydym yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra.

Yn gywir,

Rich Foxhall
Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd

**Codir tâl ar alwadau i'r rhif hwn ar gyfraddau galwadau cenedlaethol ac maen nhw'n rhan o gynlluniau munudau cynhwysol o linellau tir a ffonau symudol.*